

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN

Cynhelir y cyfarfod ar Zoom
Nos Fawrth, Hydref 19, 2021 am 7:30yh o'r gloch.

AGENDA

www.cyngorllanfachreth.cymru

1. Croeso'r Cadeirydd

2. Ymddiheuriadau:

3. Datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 21, 2021

5. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 21, 2021

Eitem 6.a. Wedi gwneud ymoliadau gyda Un Llais Cymru cafwyd gwybod (6/9/2021) nid yw'n arferiad da i gynnwys yr eitem ar yr Agenda.

Ar agenda cyfarfodydd Un Llais Cymru mae eitem 'Unrhyw faterion arall yn ôl doethineb y Cadeirydd' yn cael ei gynnwys.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (22/9/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau am fis Medi/Hydref.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (23/9/2021) oddi wrth Cymdeithas yr Iaith yn rhoi gwybod am daith beicio bydd yn cymryd lle ar 11 a 13 Tachwedd o Gaernarfon i Gaerdydd i dynnu sylw at argyfwng tai yn Cymru. Amgáu mae llythyr i'r cynghorwyr arwyddo i roi gwybod maent yn hapus i ychwanegu eu henwau i'r Llywodraeth reoli'r farchnad dai.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (24/9/2021) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd angen gwybod pa finiau halen sydd angen eu llenwi. Maent angen gwybod cyn Tachwedd 1, 2021. Y gost fydd £46 y bin.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Mae angen llenwi bin halen ar gyfer Doluwchadda.

ch. Llythyr (3/10/2021) oddi wrth Cylch yr Iaith yn rhoi gwybod gall y Cyngor wrthwynebu cais cynllunio ar sail bygythiad datblygiad i'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (7/10/2021) yn rhoi manylion o'u prosiect newydd gyda Chambers Conservation 'Ardaloedd Cadwraeth sy'n addas ar gyfer yn Unfed Ganrif ar Hugain'. Mae'r ardaloedd gadwriaeth gyda diddordeb pensaerniol neu bwysigrwydd hanesyddol, ble mae cymeriad neu edrychiad yn ddymunol i'w ddiogelu neu fireinio. Bydd y prosiect yn cael ei wneud rhwng mis Hydref 2021 – mis Mawrth 2022 i ddatblygu Gwerthusiad a Chynlluniau Rheoli er mwyn eu defnyddio i warchod a datblygu'r Ardaloedd Cadwraeth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

8. Materion Ariannol

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/9/2021: £1,141.38.
Balans yn y banc ar 29/9/2021: £11,768.10. (29/9/2020: £7,848.58).

9. Archwilio

a. Llythyr (27/9/2021) oddi Archwilio Cymru yn rhoi gwybod (i bob cyngor) mae gwaith archwilio ar y gweill ac mae nifer o amgylchiadau annisgwyl wedi arwain at rywfaint o oedi i'r gwaith. Os na fyddwn wedi derbyn Tystysgrif Archwilio ganddynt cyn y 30ain o Fedi, mae angen gyhoeddi'r hysbysiad (amgau) mewn man amlwg yn y gymuned ac ar ein gwefan. Gallwn wedyn gyhoeddi ein ffurflen flynyddol ar ein gwefan fel y nodir yn yr hysbysiad.

Rhodddwyd yr hysbysiad ar ein gwefan.

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

11. Unrhyw fater arall

a. Cafwyd wybod bod yr hysbysfwrdd newydd wedi cael ei osod ar wal lloches bws Llanfachreth. (Gweler Cofnodion Gorffennaf 20,2021, Eitem 9.b).

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc